O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2384 (Cy. 257)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Pont Llanelen, Llanelen, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*26 Medi 2011*
Yn dod i rym	*2 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd – Yr Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Pont Llanelen, Llanelen, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 2 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A4042 wrth Bont Llanelen, Llanelen yn Sir Fynwy, sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Gipsy Lane, i gyfeiriad y gogledd am 250 o fetrau, i bwynt ger Cyfnewidfa Hardwick.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.